

Cynllun Iaith Gymraeg Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a'r Llys Gwarchod

Paratowyd Cynllun Iaith Gymraeg Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a Llys
Gwarchod o dan Ran 21 y Ddeddf - ac yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd
gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Ran 9 y Ddeddf.

Daeth yn weithredol ar 14 Medi 2007.

Cynnwys

Tudalen

Rhan 1 – Cyflwyniad

1.1	Y cynllun	7
1.2	Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus	7
1.3	Y Llys Gwarchod	8

Rhan 2 – Cynllunio a Darparu Gwasanaeth

2.1	Polisiâu a mentrau	9
2.2	Darparu gwasanaethau	9
2.3	Gwasanaethau a ddarperir ar ran yr OPG/y Llys gan drydydd parti	9
2.4	Safonau ansawdd	9

Rhan 3 – Delio Gyda'r Cyhoedd Sy'n Siarad Cymraeg

3.1	Cyfathrebu ysgrifenedig	10
3.2	Llythyrau penderfyniad	10
3.3	Cyfathrebiadau teleffon	10
3.4	Post electronig	11
3.5	Gwrandawïadau yng Nghymru	11
3.6	Cyfarfodydd a chynadleddau cyhoeddus yng Nghymru	12
3.7	Ymweliadau	12
3.8	Deliadau eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru	12

Rhan 4 – Wyneb Cyhoeddus Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus A'r Llys Gwarchod		
4.1	Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebion	13
4.2	Hunaniaeth gorfforaethol	13
4.3	Cyhoeddiadau	13
4.4	Ffurflenni	14
4.5	Rhyngrwyd	14
4.6	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	14
4.7	Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion ar gyfer recriwtio staff	14
4.8	Datganiadau i'r wasg a chyswllt gyda'r cyfryngau	15
Rhan 5 – Recriwtio a Hyfforddi		
5.1	Staffio	16
5.2	Recriwtio	16
5.3	Hyfforddiant iaith	16
5.4	Hyfforddiant galwedigaethol	16
5.5	Gweithio mewn partneriaeth	16
Rhan 6 – Trefniadau Mewnol		
6.1	Cyfrifoldeb	17
6.2	Cyfarwyddiadau a chyfarwyddyd	17
6.3	Cyhoeddusrwydd	18
6.4	Deddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol	18

Rhan 7 – Monitro Ac Adrodd

7.1 Monitro 19

7.2 Adrodd ynghylch perfformiad 19

7.3 Adolygu a diwygio'r cynllun 19

Rhan 8 – Awgrymiadau a Gwybodaeth Cysylltu

8.1 Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella 20

Rhan 9 - Cynllun Gweithredu

21

Rhan 10 - System Sgorio Ar Gyfer Cyhoeddiadau

25

Rhan 1 – Cyflwyniad

1.1 Y cynllun

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 mae pob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn gorfod paratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn y Gymraeg.

Dyma ein cynllun ni. Mae'n disgrifio sut y byddwn yn rhoi ar waith, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor a sefydlwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylai'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg gael eu trin ar sail gyfartal.

Mae'r cynllun yn cynnwys y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r term cyhoedd yn golygu unigolion, unigolion cyfreithiol a chyrrff corfforaethol, yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol, elusennau, cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig. Nid yw'n cynnwys unigolion sydd yn gweithredu yn rhinwedd eu swydd fel cynrychiolydd y Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth.

Gellir canfod gwybodaeth bellach ynghylch cwmpas a phwrpas y cynlluniau iaith Gymraeg yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk).

Enw 'The Office of Public Guardian' yn Gymraeg yw **Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus**.

Enw 'The Court of Protection' yn Gymraeg yw'r **Y Llys Gwarchod**.

1.2 Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

1.2 (a) Cefndir

Sefydlwyd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG) ar 1 Hydref 2007, i gefnogi'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mae'r OPG yn asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae'r OPG wedi'i leoli yn Llundain, ac mae ei gyfrifoldebau yn ymestyn ar draws Cymru a Lloegr gyfan (gyda threfniadau ar wahân yn bodoli ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon). Mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau sy'n cefnogi materion ariannol, eiddo, iechyd a lles pobl sydd heb y gallu meddyliol i wneud penderfyniadau mewn maes penodol. Mae gallu'n cael ei asesu'n unol â'r gofynion a nodwyd yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

Mae'r OPG yn gyfrifol am:

- Ddarparu cymorth gweinyddol i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
- Sefydlu a chynnal a chadw cofrestr o Atwrneiaeth Arhosol
- Sefydlu a chynnal a chadw cofrestr o Atwrneiaeth Barhaus
- Sefydlu a chynnal a chadw cofrestr o orchmynion yn penodi dirprwyon
- Goruchwylio dirprwyon a benodir gan y Llys Gwarchod
- Cynnal a sicrhau y cydymffurfir â'r Cod Ymarfer

2.2 (b) Amcanion strategol yr OPG

Diogelu Hawliau

Bydd yr OPG yn diogelu hawliau pobl ag anallu meddyliol. Byddwn yn gweithio gydag eraill i sicrhau bod yr holl rai sy'n gysylltiedig â'u gofal yn deall eu dyletswydd i weithredu a gwneud penderfyniadau yn unig pan fo angen hynny ac yn unig er lles y rhai y maent yn gyfrifol amdanynt.

Cefnogi Cleientiaid

Bydd yr OPG yn cefnogi cleientiaid gan rymuso'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau trwy gadw cofnodion o bwerau a roddwyd a thrwy ymateb yn gyflym ac yn ddiduedd i honiadau o gamddefnyddio neu gam-drin pŵer.

Rheoleiddio a Chefnogi Dirprwyon

Bydd yr OPG yn rheoleiddio ac yn cefnogi dirprwyon penodedig i wneud penderfyniadau ar ran pobl ag anallu meddyliol. Byddwn yn sicrhau y diogelir cleientiaid, yn asesu ac yn rheoli'r risgiau ac yn lleihau biwrocratiaeth a chost gymaint â phosibl.

Safonau Darpariaeth

Bydd yr OPG yn monitro'r gwasanaeth a safonau'r ddarpariaeth a ddisgwyllir gan ein rhanddeiliaid a bydd yn sicrhau rhagoriaeth mewn darpariaeth trwy wella ein gwasanaeth i adlewyrchu disgwyliadau gwasanaeth rheoleiddio a gweinyddol fodern.

Polisi

Yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 bydd yr OPG yn arwain ar ddatblygu polisi'r Llywodraeth ar wneud penderfyniadau i bobl ag anallu meddyliol, gan bwysleisio fod gwahaniaeth clir rhwng penderfyniadau Barnwrol a rheoleiddio dirprwyon ac atwrneiod, a datblygu polisi.

Partneriaethau

Fel sefydliad newydd bydd yr OPG yn datblygu partneriaethau gydag unigolion a sefydliadau perthnasol eraill sy'n gysylltiedig â materion yn ymwneud â galluedd meddyliol er mwyn sicrhau bod y rhai y mae angen ein cymorth arnynt yn derbyn gwasanaeth prydlon, addas a phriodol.

Ymwybyddiaeth Gyhoeddus

Bydd yr OPG yn darparu gwybodaeth a chyngor i'r cyhoedd ar faterion yn ymwneud â galluedd meddyliol. Byddwn yn tynnu sylw at y dewisiadau ar gael i alluogi pobl i wneud penderfyniadau ar ran eraill nad ydynt yn gallu gwneud hynny oherwydd anallu meddyliol.

1.3 Y Llys Gwarchod

1.3 (a) Cefndir

Mae'r Llys Gwarchod (y Llys) yn goruchwylio materion ariannol, eiddo, iechyd a lles pobl sydd heb allu meddyliol. Mae'n gwneud hyn drwy benodi dirprwyon i wneud penderfyniadau ar ran pobl sydd heb y gallu meddyliol i wneud y penderfyniadau dan sylw, a phenderfynu ynghylch cwestiynau mewn perthynas â'r Atwrneiaeth Barhaus ac Arhosol.

Mae gan y Llys weinyddiaeth ganolog (Cofrestrfa) wedi ei lleoli yn Llundain, ond bydd llefydd i gynnal gwrandawiadau mewn nifer fechan o leoliadau ar draws Lloegr a Chymru.

Rhan 2 – Cynllunio a darparu gwasanaeth

2.1 Polisiâu a mentrau

Bydd ein polisiâu, mentrau a'n gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn. Byddwn yn ymgynghori gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynghylch y cynigion a fydd yn effeithio ar y cynllun, neu'n effeithio ar gynlluniau sefydliadau eraill. Ni fyddwn yn addasu'r cynllun heb gymeradwyaeth y Bwrdd.

Wrth ystyried datblygu a gweithredu polisiâu a mentrau byddwn yn sicrhau bod staff ac ymgynghorwyr cysylltiedig yn ymwybodol o'r cynllun a'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

Byddwn yn asesu canlyniadau ieithyddol unrhyw bolisiâu a mentrau sy'n effeithio ar y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu i'r cyhoedd yng Nghymru. Byddwn hefyd yn ymdrechu i sicrhau bod ein polisiâu a'n mentrau yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac wrth wneud hynny'n symud y sefydliad yn nes at weithredu'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal.

Bydd yr holl bolisiâu a mentrau yn gyson â'r cynllun hwn ac ni fydd y mesurau a gynhwysir oddi mewn iddo yn ei danseilio.

Pryd bynnag fo'n bosib, bydd ein dogfennau ymgynghoriad yn trafod y berthynas rhwng yr iaith Gymraeg a'r polisiâu, mentrau a'r gwasanaethau sy'n cael eu datblygu.

Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i sicrhau y bydd deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.

Pan fyddwn yn cyfrannu at ddatblygu ac/neu ddarparu polisiâu, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth a arweinir gan sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn modd sy'n gyson â'r cynllun hwn.

2.2 Darparu gwasanaethau

Byddwn yn sicrhau bod cymaint â phosib o'n gwasanaethau ar gael yn y Gymraeg - a byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd eu bod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.3 Gwasanaethau a ddarperir ar ran yr OPG/y Llys gan drydydd parti

Bydd unrhyw drefniadau a wnawn gyda thrydydd parti sydd wedi'i leoli y tu allan Cymru yn gyson â rhannau perthnasol y cynllun hwn.

Bydd unrhyw drefniadau a wnawn gyda thrydydd parti sydd wedi'i leoli yng Nghymru yn gyson â rhannau perthnasol cynllun safonol Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

2.4 Safonau ansawdd

Bydd y gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg a'r Saesneg o ansawdd cyfartal a byddant yn cael eu darparu o fewn yr un amserlen.

Rhan 3 – Delio gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Gofynnir i gwsmeriaid newydd nodi eu dewis iaith wrth gyfathrebu, a hynny ar y cyswllt cyntaf, a bydd cwsmeriaid presennol yn cael gwybod bod y gwasanaeth ar gael. Bydd ymatebion yn cael eu cofnodi'n ganolog a bydd yr holl gyfathrebu â'r cwsmer yn y dyfodol yn cael ei wneud yn eu hiaith ddewisol. Ble na dderbynnir ymateb, byddwn yn cymryd yn ganiataol nad yw'r cwsmer eisiau defnyddio'r gwasanaeth, a pharheir i gyfathrebu drwy gyfrwng y Saesneg.

Byddwn yn defnyddio system sgorio, i'w gytuno gyda'r Bwrdd, i ddynodi'n wrthrychol unrhyw ohebiaeth safonol neu gylchol, nad oes angen ei gyhoeddi yn y Gymraeg, neu'n ddwyieithog (er enghraifft, pan fo'r ohebiaeth yn dechnegol iawn neu'n faith iawn).

3.1 Cyfathrebu ysgrifenedig

Mae croeso i aelodau'r cyhoedd yng Nghymru ohebu gyda'r OPG a'r COP yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Pan fyddwn yn derbyn unrhyw ohebiaeth yn y Gymraeg byddwn yn darparu ymateb wedi'i lofnodi yn y Gymraeg o fewn yr un amserlen â gohebiaeth a dderbynnir yn Saesneg. Ble nad yw'n bosib rhoi ymateb sylweddol o fewn yr amser hwn, bydd cydnabyddiaeth ac esboniad ysgrifenedig yn cael ei anfon yn y Gymraeg, os yw'n briodol. Ni ddylai gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn ei hun arwain at ohiriad.

Yn amodol ar y system sgorio y cyfeirir ati uchod, pan fyddwn yn anfon gohebiaeth safonol neu gylchol i sawl derbynnydd yng Nghymru, bydd yn ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan yr holl dderbynyddion ei dderbyn yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn unig.

Os bydd rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer arferol fydd sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd.

Bydd atodiadau sy'n cael eu hanfon gyda llythyrau Cymraeg neu ddwyieithog yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog (pa un bynnag sy'n briodol), pan fydd ar gael.

Bydd pob gohebiaeth copi caled yn yr iaith Gymraeg a gyhoeddir gennym yn cael ei llofnodi.

3.2 Llythyrau penderfyniad

Llythyr penderfyniad yw llythyr a anelir at gynulleidfa gyhoeddus ehangach.

Os bwriedir i lythyr penderfyniad gyfleu polisi i gynulleidfa llawer ehangach na'r rheiny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ymholiad, neu weithdrefn statudol arall, byddwn yn ei drin, o dan y cynllun hwn, fel cyhoeddiad.

3.3 Cyfathrebiadau teleffon

Oherwydd ein lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i ni gynnal sgysiau teleffon drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, os yw galwr yn dymuno siarad yn y Gymraeg, bydd yn cael dau opsiwn:

- Parhau gyda'r alwad yn y Saesneg; neu
- Ysgrifennu atom yn y Gymraeg a derbyn ymateb ysgrifenedig i'r ymholiad yn y Gymraeg.

3.4 Post electronig

Rydym yn croesawu gohebiaeth e-bost. Bydd aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno cyfathrebu gyda ni drwy e-bost yn y Gymraeg yn derbyn ymateb safonol i gydnabod yr e-bost yn y Gymraeg, bydd y gydnabyddiaeth hon yn dweud wrthynt y bydd ymateb llawn yn y Gymraeg yn dilyn. Yna bydd ymateb yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg o fewn yr un amserlen â'r e-byst sy'n cael eu derbyn yn y Saesneg.

Bydd yr holl ohebiaeth e-bost Cymraeg yr ydym yn ei hanfon o Gymru gyda llofnod electronig Cymraeg (neu ddwyieithog).

Bydd atodiadau sy'n cael eu hanfon gyda gohebiaeth e-bost Gymraeg neu ddwyieithog yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog (pa'r un bynnag sy'n berthnasol), pan fo'n bosib.

Oherwydd rheoliadau diogelu data, mae'n bosib na fyddwn yn gallu delio gyda'r holl ymholiadau drwy e-bost. O dan yr amgylchiadau yma, bydd llythyr yn cael ei anfon yn rhoi sylw i'r mater penodol a godwyd o fewn yr amserlen safonol ar gyfer gohebiaeth ysgrifenedig.

3.5 Gwrandawriadau yng Nghymru

Mae Rhan 22(1) Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn darparu:

“Mewn unrhyw achosion cyfreithiol yng Nghymru gellir siarad yr iaith Gymraeg gan unrhyw barti, tyst neu unigolyn arall sy'n dymuno ei defnyddio, yn ddarostyngedig mewn achosion llys heblaw Llys Ynadon i'r cyfryw rybudd ymlaen llaw ag a fydd yn ofynnol yn ôl rheolau'r llys; a gwneir unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer cyfieithu yn unol â hyn.”

Mae gennych yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion llys sy'n cael eu cynnal yng Nghymru. Pan fyddwn yn anfon y dogfennau cyntaf ar gyfer gwrandawriad Llys yng Nghymru, byddwn yn cynnwys rhybudd sy'n rhoi manylion ynghylch ein gwasanaethau iaith Gymraeg. Bydd y rhybudd yn esbonio y gellir siarad y Gymraeg neu'r Saesneg yn yr achosion a bydd yn gwahodd cwsmeriaid i adael i ni wybod ymlaen llaw os ydynt yn dymuno cynnal y gwrandawriad drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mewn unrhyw achos ble fo'n bosib y bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio gan unrhyw barti neu dyst (neu mewn unrhyw ddogfennau sy'n cael eu cyflwyno i'r Llys), mae'n rhaid i'r partion neu eu cynrychiolwyr cyfreithiol hysbysu'r llys o hyn fel y gellir gwneud trefniadau priodol ar gyfer rheoli'r achos.

Os ceir costau o ganlyniad i barti'n methu cydymffurfio â hyn, gellir hawlio costau gan y parti sydd wedi troseddu.

Pryd bynnag y bydd angen cyfieithydd i gyfieithu tystiolaeth o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg, bydd y Rheolwr/aig Llys ble y clywir yr achos yn cymryd camau i sicrhau presenoldeb cyfieithydd y mae ei (h)enw wedi ei gynnwys yn y rhestr cyfieithwyr llys cymeradwy.

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn rhoi'r hawl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn llysoedd yng Nghymru, nid yw'n rhoi'r hawl i siarad Cymraeg mewn gwrandawriad y tu allan i Gymru. Mae'r penderfyniad p'un ai i ganiatáu siarad Cymraeg mewn llys y tu allan i Gymru yn benderfyniad i'r Barnwr a phan fydd hyn yn cael ei ganiatáu, byddwn yn trefnu cyfleusterau cyfieithu ac yn talu unrhyw gostau cyfieithu.

Gall y Llys ddefnyddio cysylltau tele-fideo ar gyfer cynnal gwrandawriadau gydag aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru. Mewn achosion o'r fath, a ble fo'r cwsmer yn gwneud cais o'r fath, bydd trefniadau yn cael eu gwneud i gynnal y gwrandawriad yn y Gymraeg.

3.6 Cyfarfodydd a chynadleddau cyhoeddus yng Nghymru

Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd siarad Cymraeg neu Saesneg mewn unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus neu gynadleddau a gynhelir gan yr OPG neu'r Llys. Mi fydd hysbysiadau a chyhoedduswydd am y cyfryw gyfarfodydd yn cyfeirio at hyn ac yn rhoi cyngor ar sut gall y cyhoedd ein hysbysu eu bod am annerch y cyfarfod yn y Gymraeg. Yn sgil hyn, mi fydd trefniadau yn cael eu gwneud i sicrhau bod offer cyfieithu ar y pryd ar gael.

Mi fyddwn yn sicrhau bod hysbysiadau cyhoeddus, gwahoddiadau ac unrhyw wybodaeth arall ynglŷn â threfniadau cyfarfodydd a chynadleddau yn cael eu cylchredeg yn y Gymraeg i'r rheini y gwyddom fod yn well ganddynt gyfathrebu yn y Gymraeg. Dosbarthir dogfennau dwyieithog pan nad yw'r dewis iaith yn hysbys.

Darparir offer cyfieithu a gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r rheini sydd yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus a chynadleddau ac sydd wedi ein hysbysu ymlaen llaw eu bod am siarad Cymraeg. Mi fyddwn yn sicrhau bod adroddiadau a phapurau a baratoir yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

3.7 Ymweliadau

Yn y Ddeddf Galluedd Meddwl cyflwynir newidiadau i'r ffordd yr asesiad galluedd unigolyn. Pan wneir asesiad o alluedd aelod o'r cyhoedd yng Nghymru gan y Llys Gwarchod, neu un o'i ddirprwyon penodedig, mae'n angenrheidiol bod mynediad i wasanaeth Cymraeg os yw hyn yn briodol. Yn achos siaradwyr Cymraeg, mae cynnal yr asesiad yn y Gymraeg yn gam rhesymol wrth ganfod galluedd, ac arfer safonol yr OPG/Llys Gwarchod fydd sicrhau bod y gwasanaeth yma ar gael.

Fe ddylai'r arfer a ddisgrifir uchod hefyd fod yn ganllaw yn yr achosion hynny lle asesiad galluedd unigolyn heb ymwneud uniongyrchol gan yr OPG/Llys Gwarchod.

Nid yw'n ymarferol darparu ymwelwyr Cymraeg eu hiaith. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd.

Mi fydd gwahoddiadau ac unrhyw wybodaeth arall sy'n disgrifio trefniadau ymweliadau yng Nghymru yn cael eu cylchredeg yn y Gymraeg i'r rheini sydd wedi ein hysbysu bod yn well ganddynt gyfathrebu yn y Gymraeg, ac yn ddwyieithog pan nad yw'r dewis iaith yma yn hysbys.

3.8 Deliadau eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru

Pan ydym yn ymgymryd ag **arolygon cyhoeddus** ac yn gwybod bod cwsmer wedi dweud eu bod yn dymuno cyfathrebu yn y Gymraeg, bydd holl agweddau'r arolwg yn cael eu cynnal yn y Gymraeg.

Gofynnir i ymatebwyr nodi a ydynt yn dymuno ymateb i'r arolwg yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Pan ydym yn trefnu **seminarau, cyrsiau hyfforddiant** neu ddigwyddiadau tebyg ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn asesu'r angen i'w darparu yn y Gymraeg. Wrth wneud yr asesiad hwn, byddwn yn ystyried iaith ddewisol y rheini sy'n mynychu ac argaeledd hyfforddwyr sy'n siarad Cymraeg.

Rhan 4 – Wyneb cyhoeddus Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a'r Llys Gwarchod

4.1 Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebion

Bydd yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, a deunydd arddangosfeydd a hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru (er mwyn targedu'r cyhoedd) yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, neu fel fersiynau ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd - a bydd y ddwy fersiwn ar gael yr un pryd a'r un mor hygyrch â'i gilydd.

Bydd unrhyw hysbysebion a roddir mewn papurau newydd iaith Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg (gyda'r ddwy fersiwn yn ymddangos yr un pryd, ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

Mewn cyhoeddiadau iaith Gymraeg bydd hysbysebion yn y Gymraeg yn unig.

Bydd hysbysebion teledu, sinema, band eang a radio yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd ymgyrchoedd teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod oriau darlledu rhaglenni Cymraeg yn y Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio a ddarlledir yn ystod rhaglenni iaith Gymraeg ar orsafoedd radio masnachol yn y Gymraeg.

Byddwn yn osgoi defnyddio is-deitlau iaith Gymraeg, neu drosleisio hysbysebion i'r Gymraeg (heblaw llais sylwebydd).

Bydd unrhyw arddangosiadau clyweled, teithiau sain neu gyfrwng rhyngweithiol y byddwn yn eu paratoi yn ddwyieithog.

4.2 Hunaniaeth gorfforaethol

Byddwn yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol cwbl ddwyieithog ar yr holl ohebiaeth, dogfennau a chyhoeddiadau a baratoir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys y cyfieithiad Cymraeg o deitlau'r OPG a'r Llys **(Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a'r Llys Gwarchod)**.

Byddwn yn darparu'r gwaith cyfieithu/gwaith celf priodol ar gyfer defnydd mewnol ac allanol i gyhoeddwy, asiantau, contractwyr ac eraill sy'n atgynhyrchu ein delwedd gorfforaethol.

4.3 Cyhoeddiadau

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau y bydd yr holl ddeunyddiau sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi a'u hargraffu ar ffurf ddwyieithog ble bo'n rhesymol ymarferol; fel arall bydd dogfennau ar gael mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân ar yr un pryd.

Bydd yr holl ddeunydd Cymraeg neu ddwyieithog a baratoir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn gyfartal o ran maint a fformat i'r fersiynau Saesneg a byddwn yn sicrhau pan fydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yn cael eu paratoi y byddant yn cael eu cyhoeddi yr un pryd.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy sicrhau bod: -

- Y deunydd a baratoir gan yr OPG, y Llys, ac eraill sy'n gweithredu ar eu rhan, at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru, unai'n cael ei baratoi'n ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, yn dibynnu ar eu maint, cymhlethdod neu gost
- Ble fo angen ffurflenni, rheoliadau, rheolau neu weithdrefnau penodedig at ddefnydd y cyhoedd, bydd y rhain unai'n cael eu paratoi'n ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, yn dibynnu ar eu maint, cymhlethdod neu gost

- Byddwn yn ymgynghori gyda sefydliadau sy'n gweithredu ar ein rhan o safbwynt darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru wrth ddatblygu polisiâu a mentrau newydd sy'n effeithio ar y gwasanaethau hynny

4.4 Ffurflenni

Mae cymhlethdod ffurflenni presennol yn gwneud fersiynau dwyieithog yn anymarferol; felly'n gyffredinol bydd ffurflenni'n fersiynau Cymraeg neu Saesneg llawn. Byddwn yn hysbysu'r cyhoedd ynghylch hyn, ac yn rhoddi ffurflen iddynt yn eu hiaith ddewisol.

I sicrhau nad yw'r cyhoedd yng Nghymru yn cael unrhyw anhawster cael fersiynau dwyieithog neu fersiynau deuol o unrhyw un o'r dogfennau sydd wedi'u rhestru uchod, byddwn yn cynnal gweithdrefnau i sicrhau eu bod i gyd ar gael ar gyfer eu llwytho i lawr o'r gwefannau priodol neu drwy wneud cais am gopi caled.

Gellir cwblhau ffurflenni yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ffurflenni y byddwn yn eu derbyn yn y Gymraeg yn cael eu cyfieithu i'r Saesneg, a byddwn yn talu'r costau cyfieithu.

4.5 Rhyngrwyd

Bydd yr holl wybodaeth hanfodol ar gael yn y Gymraeg ar wefan yr OPG (www.publicguardian.gov.uk). Bydd unrhyw ddogfen nad yw ar gael ar y wefan yn cael ei chyfieithu ar gais.

Gan fod ein cyhoeddiadau ar gael ar y Rhyngrwyd, byddwn yn defnyddio ein logo dwyieithog ac yn cynnwys fersiynau iaith Gymraeg a Saesneg.

Mae ein gwefannau'n cynnwys tudalennau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Byddwn yn darparu fersiynau Cymraeg o'r tudalennau rhyngweithiol ar ein gwefannau.

Byddwn yn paratoi rhaglen, i'w chytuno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, sy'n nodi sut y byddwn yn cynyddu'r deunydd o'r iaith Gymraeg ein gwefan, dros amser.

Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu ein gwefannau presennol, byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddir gan y Bwrdd o ran datblygu gwefannau.

Pa bryd bynnag y byddwn yn rhoi cyhoeddiadau iaith Saesneg ar ein gwefannau, bydd y fersiynau Cymraeg yn cael eu rhoi yr un pryd, os ydynt ar gael.

4.6 Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Bydd yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn y Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, yn cael ei gyflawni wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Byddwn yn addasu ein systemau TGCh presennol i sicrhau eu bod yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn y Gymraeg - a gweithredu'n unol â'r cynllun hwn.

Wrth ddatblygu neu gaffael systemau TGCh byddwn yn rhoi ystyriaeth i Ganllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog y Bwrdd.

4.7 Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion ar gyfer recriwtio staff

Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion ar gyfer recriwtio staff a roddir mewn papurau newydd iaith Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn rhai dwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau mewn cyhoeddiadau iaith Gymraeg yn y Gymraeg.

Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – p'un ai eu bod yn cael eu cynhyrchu fel fersiwn dwyieithog unigol, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Yn y cyfryngau Saesneg eu cyfrwng, mae'n bosib y bydd swyddi ble mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol yn cael eu hysbysebu yn y Gymraeg gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

Gall hysbysebion ar gyfer recriwtio a roddir mewn newyddiaduron Saesneg (a chyhoeddiadau eraill) gyda dosbarthiad DU-gyfan fod yn y Saesneg, oni bai bod y swydd yn un ble mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, ac yn yr achos hwnnw gall yr hysbyseb fod yn gwbl ddwyieithog, neu yn y Gymraeg gydag esboniad byr yn Saesneg.

Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysebion ar gyfer recriwtio staff a roddir mewn unrhyw le arall yng Nghymru yn ddwyieithog.

4.8 Datganiadau i'r wasg a chyswllt gyda'r cyfryngau

Bydd datganiadau i'r wasg a chyfryngau darlledu iaith Gymraeg yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg ble fo terfynau amser yn caniatáu hynny.

Pan fyddwn yn rhoi datganiadau i'r wasg ar ein gwefan, ein harfer arferol fydd eu rhoi yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Rhan 5 – Recriwtio a Hyfforddi

5.1 Staffio

Nid oes gennym unrhyw swyddfeydd yng Nghymru. Er hynny, byddwn yn ceisio gwybodaeth ynghylch sgiliau iaith Gymraeg staff.

5.2 Recriwtio

Ar gyfer unrhyw swyddi gyda chyswllt sylweddol a rheolaidd gyda'r cyhoedd yng Nghymru (megis y llysoedd yng Nghymru) byddwn yn ystyried p'un ai a ddylai rhuglder yn y Gymraeg fod yn sgil dymunol neu hanfodol – a bydd hyn yn cael ei ddatgan mewn cymwyseddau swydd a hysbysebion.

5.3 Hyfforddiant iaith

Byddwn yn cefnogi ac yn ariannu hyfforddiant ar gyfer staff sydd, fel rhan o'u cyfrifoldebau, â chyswllt sylweddol a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru - ac sy'n dymuno dysgu Cymraeg, neu wella eu Cymraeg.

Byddwn yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith.

5.4 Hyfforddiant galwedigaethol

Pan fo'n ymarferol, byddwn yn darparu hyfforddiant galwedigaethol yn y Gymraeg i ddatblygu gallu staff sydd, fel rhan o'u dyletswyddau, â chyswllt sylweddol a rheolaidd gyda'r cyhoedd yng Nghymru.

5.5 Gweithio mewn partneriaeth

Pan fyddwn yn arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth ffurfiol, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

Pan fyddwn yn ymuno gydag unrhyw bartneriaeth ffurfiol y mae sefydliad arall yn ei arwain, bydd ein mewnbwn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio ag ef.

Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Wrth weithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

Mae'r uchod yn cyfeirio'n unig at bartneriaethau ffurfiol sy'n delio gyda gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru.

Rhan 6 – Trefniadau Mewnol

Bydd y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn yn cael eu hintegreiddio ym mhrosesau gweinyddol arferol yr OPG a'r Llys.

6.1 Cyfrifoldeb

Mae'r ymrwymïadau a'r trefniadau a nodwyd yn y cynllun hwn gydag awdurdod a chefnogaeth lawn y Gwarcheidwad Cyhoeddus a'r Llys.

Bydd Rheolwyr Cangen yn gyfrifol am weithredu'r cynllun yn ddyddiol o fewn eu meysydd gwaith. Cyfarwyddwyr fydd yn gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir yn gyffredinol gyda'r cynllun.

Byddwn yn penodi uwch aelod o staff i gydlynu'r gwaith sydd ei angen i gyflawni, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.

Byddwn yn paratoi, a diweddarau'n barhaus, gynllun gweithredu manwl sydd i'w gytuno gyda'r Bwrdd, fydd yn nodi sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Bydd y cynllun gweithredu yn dod i rym ar y dyddiad y daw'r cynllun i rym, neu cyn gynted â phosib ar ôl hynny. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ynghylch cynnydd yn erbyn pob targed. Nod cyffredinol y cynllun gweithredu fydd sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymïadau a nodwyd yn y cynllun hwn cyn gynted â phosib.

6.2 Cyfarwyddiadau a chyfarwyddyd

Gwneir yr holl staff yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau o dan y cynllun hwn a gofynnir iddynt eu hystyried wrth wneud eu gwaith.

Bydd hyn yn cael ei wneud drwy:-

- sicrhau bod copi caled o'r cynllun ar gael i'r holl staff drwy eu rheolwyr cangen
- rhoi cyfarwyddyd i staff ynghylch:
 - trin gohebiaeth yn yr iaith Gymraeg
 - defnyddio'r Uned Iaith Gymraeg HMCS a dewisiadau amgen achrededig
 - pryd i ystyried cyhoeddi dogfennau, cyhoeddiadau a deunydd cyhoeddusrwydd dwyieithog neu Gymraeg a Saesneg
 - goblygiadau'r cynllun hwn ar gyfer y rheini sy'n caffael gwasanaethau gan drydydd parti
- sicrhau bod y cyfarwyddyd ar gael ar y fewnrwyd
- cyhoeddi'r cynllun mewn safle amlwg ar y wefan.

Bydd unrhyw ffurf o gyswilt gyda'r cyhoedd yng Nghymru, nad yw'n cael ei drafod yn benodol gan y cynllun hwn, yn cael ei wneud mewn modd sy'n gyson gydag egwyddorion cyffredinol y cynllun hwn.

6.3 Cyhoeddusrwydd

Byddwn yn cyhoeddi'r cynllun, unwaith y bydd wedi'i gytuno a'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yn fewnol ac yn allanol.

Yn fewnol bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi mewn:

- Cylchlythyr mewnol i staff
- Rhyngrwyd
- Briff Tîm
- Hyfforddiant

Yn allanol, bydd y cynllun yn cael cyhoeddusrwydd:

- drwy gyhoeddi rhybudd yn y wasg;
- drwy sicrhau bod y cynllun ar gael fel dogfen ddwyieithog am ddim gan ein tîm cyfathrebiadau;
- mewn man amlwg ar ein gwefan;
- drwy ein cyhoeddiad rheolaidd i gwsmeriaid a
- gan y tîm Cyfathrebiadau yn yr OPG.

6.4 Deddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Pan fyddwn yn rhyddhau gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn eu cyfieithu i iaith ddewisol yr ymgeisydd os yw'r nifer o eiriau i'w cyfieithu yn llai na 100.

Rhan 7 – Monitro ac Adrodd

Bydd y gwaith o fonitro ac adolygu'r cynllun hwn yn cael ei gydlynu gan y tîm Perfformiad a Newid.

7.1 Monitro

Byddwn yn monitro ein perfformiad wrth gwrdd â'r ymrwymïadau a wnaethpwyd yn y cynllun hwn, ac yn erbyn y targedau a nodwyd yn y cynllun gweithredu cysylltiedig, a byddwn yn cofnodi'r galw am wasanaethau yn y Gymraeg, yn cynnwys galw am unrhyw wasanaethau sy'n mynd tu draw i'r ymrwymïadau yr ydym wedi eu gwneud.

Byddwn yn sefydlu trefniadau strwythuredig a pharhaus i fonitro ein perfformiad, a pherfformiad unrhyw drydydd parti sy'n darparu neu'n gweinyddu gwasanaethau ar ein rhan, o safbwynt cwrdd â'r ymrwymïadau a wnaethpwyd yn y cynllun hwn.

Byddwn yn adrodd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ein cynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn, pan ofynnant am adroddiad.

Ein targed yw sicrhau ein bod yn gweithredu'n unol â'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd iddo ddod i rym. Byddwn yn defnyddio gweithdrefn hunanasesiad, sydd i'w gytuno gyda'r Bwrdd, er mwyn monitro'r cynnydd hwn yn erbyn ein targed.

7.2 Adrodd ynghylch perfformiad

Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth a fydd yn cymharu perfformiad gyda'r safonau a'r targedau a nodwyd yn y cynllun hwn yn Adroddiad Blynyddol yr OPG (neu ddogfen gyhoeddedig debyg).

7.3 Adolygu a diwygio'r cynllun

Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd iddo ddod i rym.

Hefyd, o bryd i'w gilydd, mae'n bosib y bydd angen i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig newidiadau i'r cynllun, oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i'r amgylchiadau yr ydym yn ymgymryd â'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall.

Ni fydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Rhan 8 – Awgrymiadau a Gwybodaeth Cysylltu

8.1 Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

Dylid anfon cwynion ynghylch y cynllun hwn neu awgrymiadau ar gyfer ei wella at yr uwch aelod o staff sy'n gyfrifol am y cynllun yn y cyfeiriad canlynol:

OPG Communications
Performance & Change Team
Office of the Public Guardian
Archway Tower
2 Junction Road
London N19 5SZ

E-bost:

communications@publicguardian.gsi.gov.uk

Byddwn yn cydweithredu gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn datrys cwynion ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir o dan adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

Rhan 9 – Cynllun Gweithredu

Cyfeirnod y Cynllun	Gweithredu Angenrheidiol	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yma / Nodiadau
2. Cynllunio a darparu gwasanaeth				
Polisiau, deddfwriaeth a mentrau				
2.1	Sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol am bolisi, mentrau a darparu gwasanaeth (presennol a newydd) yn ymwybodol o ymrwymiad yr OPG/Llys o dan y cynllun	O fewn 3 mis i fabwysiadu'r cynllun		
2.1	Paratoi taflen waith/cyfarwyddyd i staff, i'w helpu i gyflawni'r ymrwymiad	Dyddiad mabwysiadu'r cynllun		
Darparu gwasanaethau				
2.2	Gwasanaethau a ddarperir gennym ni	Dyddiad mabwysiadu'r cynllun ac fel bo ar gael wedi hynny		
2.3	Gwasanaethau a ddarperir gan drydydd parti	Fel bo angen		
2.4	Hysbysu'r cyhoedd o wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg - Gwefan - Cylchlythyr - Llythyrau/hysbysiadau i gwsmeriaid presennol sy'n byw yng Nghymru	Dyddiad mabwysiadu'r cynllun		

Cyfeirnod y Cynllun	Gweithredu Angenrheidiol	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yma / Nodiadau
3. Delio gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg				
Cyfathrebu (ysgrifenedig, e-bost a ffôn)				
3.1-3.4	Paratoi canllawiau i staff ar sut i ddelio â chyfathrebu yn y Gymraeg	3 mis cyn mabwysiadu'r cynllun		
3.8	Arolwg cwsmeriaid	Dyddiad mabwysiadu'r cynllun ac fel bo angen wedi hynny		
3.6 Cyfarfodydd cyhoeddus				
	Hysbysu'r cyhoedd fod cyfieithwyr ar gael etc.	Fel bo angen		
	Proses ar gyfer delio â cheisiadau i siarad Cymraeg / gael cyfieithydd	Dyddiad mabwysiadu'r cynllun		
3.7 Ymweliadau				
	Proses ar gyfer delio ag ymweliadau yng Nghymru	Dyddiad mabwysiadu'r cynllun		
	Penderfynu a oes angen ymwelydd sy'n siarad Cymraeg	Wrth recriwtio ymwelwyr o'r newydd		

Cyfeirnod y Cynllun	Gweithredu Angenrheidiol	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yma / Nodiadau
4. Wyneb cyhoeddus yr OPG a'r Llys				
4.2	Hunaniaeth gorfforaethol	Dyddiad mabwysiadu'r cynllun		
4.3	Cyhoeddiadau	Dyddiad mabwysiadu'r cynllun ac fel bo angen wedi hynny		
4.4	Ffurflenni a thafleenni	Dyddiad mabwysiadu'r cynllun ac fel bo angen wedi hynny		
4.5	Rhyngrwyd	Dyddiad mabwysiadu'r cynllun ac fel bo angen wedi hynny		
4.7	Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion ar gyfer recriwtio staff	Fel bo angen		
6. Trefniadau mewnol				
6.2	Cyfarwyddiadau a Chanllawiau	Dyddiad mabwysiadu'r cynllun ac fel bo angen wedi hynny		
6.3	Cyhoeddusrwydd	Dyddiad mabwysiadu'r cynllun		

Cyfeirnod y Cynllun	Gweithredu Angenrheidiol	Dyddiad Targed	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yma / Nodiadau
7. Monitro ac adrodd				
7.1	Monitro	Dyddiad mabwysiadu'r cynllun		
7.2	Adrodd	Yn flynyddol		
7.3	Adolygu a diwygio	Adolygiad chwarterol gyda newidiadau fel bo angen		
8. Awgrymiadau a chwynion				
8.1	Delio â chwynion	Dyddiad mabwysiadu'r cynllun		

Rhan 10 – System Sgorio ar gyfer Cyhoeddiadau

Paratuir y dogfennau canlynol yn y Gymraeg yn ôl y drefn arferol:

- Cod Ymarfer
- Llyfrynnau/taflenni arweiniad
- Cylchlythyrau
- Llythyrau i gwsmeriaid sy'n rhoi sylw i faterion penodol
- Ffurflenni Statudol
- Dogfennau Ymgynghori

Os nad yw'r ddogfen wedi'i chynnwys yn y rhestr uchod, defnyddir y system sgorio isod i benderfynu a ddylid paratoi cyfieithiad Cymraeg.

Sgorio:

0-6 phwynt = Saesneg yn unig ar hyn o bryd, ond mae'n bosib y bydd newid yn y drefn yn y dyfodol.

7-11 pwynt = Dylai dogfennau fod mewn un iaith/yn ddwyieithog ond mae hynny'n dibynnu a oes adnoddau cyfieithu ar gael ar y pryd. Os gwneir penderfyniad i beidio â chyfieithu'r ddogfen gyfan, dylid paratoi crynodeb o'r ddogfen yn y Gymraeg.

12+ pwynt = Dylai dogfennau fod yn ddwyieithog ac fe fyddant yn ddwyieithog.

Nodyn: Bydd y fformwla'n adlewyrchiad cywir o'r angen am ddogfennau dwyieithog yn y rhan fwyaf o achosion. Bydd eithriadau bob amser a dylai staff bwysu a mesur yn ofalus i sicrhau y gwneir y penderfyniad cywir.

Mae cyngor ar gael gan y Tîm Cyfathrebiadau (Cyfarwyddiaeth Perfformiad a Newid).

YSTYRIAETHAU	1 PWYNT	2 BWYNT	3 PHWYNT
1. Nifer y copïau i'w hargraffu bob blwyddyn (os yw'n fersiwn electronig yn unig, y nifer ar y rhestr dosbarthu, neu amcangyfrif o'r trawiadau)	Llai na 500	501 i 2,000	Mwy na 2,000
2. Hyd (nifer geiriau)	Llai na 1000	1001 i 2000	Mwy na 2000
3. Technegol (h.y. a fyddai'n annealladwy i'r darllynydd cyffredin)	Byddai	I ryw raddau	Na fyddai
4. Oes y cyhoeddiad (am ba hyd y defnyddir y cyhoeddiad?)	Llai na 6 mis	6 mis i 2 flynedd	Mwy na 2 flynedd
5. Statws/proffil y ddogfen	Isel (ychydig iawn o broffil allanol)	Canolig (grwpiau penodol yn unig)	Uchel (cyfryngau; dogfen arweiniol)
6. Fydd y ddogfen yn berthnasol - i faes dan sylw neu - i ran o Gymru sydd o ddiddordeb arbennig o ran y Gymraeg?	Na fydd	I ryw raddau	Bydd

